Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU
Funded by
UK Government

Cyngor sir ddinbych
denbighshire County Council

# YMGYNGHORIAD AR WELLIANNAU I BARTH CYHOEDDUS STRYD FAWR PRESTATYN

Fel rhan o Gronfa Adfywio Leol Llywodraeth y DU, dyrannwyd cyllid i Gyngor Sir Ddinbych i gynnal nifer o brosiectau a fydd yn helpu i wella edrychiad a theimlad rhai o ardaloedd allweddol Sir Ddinbych.

Un o'r ardaloedd hynny yw'r parth cyhoeddus (man gweladwy) ar Stryd Fawr Prestatyn.

Rydym eisiau gwneud gwelliannau i sut mae Stryd Fawr Prestatyn yn edrych ac yn teimlo.

Rydym yn gobeithio y bydd y prosiect yn:

1. Gwneud i ardaloedd cyhoeddus edrych a theimlo'n well
2. Ei gwneud yn haws i gael mynediad at ganol y dref o leoliadau allweddol fel y parc manwerthu, yr orsaf drenau a'r orsaf fysiau
3. Gwella arwyddion o gwmpas y dref fel y gall pobl ddod o hyd i'w ffordd yn haws
4. Annog mwy o dwristiaeth a buddsoddiad yn y dref, ac annog pobl i gefnogi manwerthwyr annibynnol

Byddem yn ddiolchgar iawn pe gallech gymryd rhan yn ein harolwg ymgynghori.
Rydym yn awyddus i glywed gan breswylwyr ac ymwelwyr Prestatyn am ba welliannau yr hoffech eu gweld yng nghanol y dref.
Bydd yr ymatebion a dderbynnir i'r arolwg hwn yn helpu i lywio'r dyluniad terfynol ar gyfer adeiladu.

Mae'n rhaid derbyn yr ymatebion erbyn **5ed Gorffennaf 2026.**

I gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â ni yn un o'r ffyrdd canlynol:

**Ar-lein:** Cwblhau'r arolwg ar-lein www.sirddinbych.gov.uk/ymgynghoriadau

**Drwy'r Post:** Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol, Blwch Post 62, Rhuthun, LL15 9AZ

Edrychwn ymlaen at glywed gennych chi a diolch i chi am roi'ch amser i rannu eich barn.

## Amdanoch chi

| **1. Pa rai o'r canlynol sy'n eich disgrifio chi orau?** | |
|---|---|
| Rwy'n byw ac yn gweithio ym Mhrestatyn | |
| Rwy'n byw ym Mhrestatyn, ond rwy'n gweithio yn rhywle arall | |
| Rwy'n gweithio ym Mhrestatyn, ond rwy'n byw yn rhywle arall | |
| Rwy'n byw mewn pentref cyfagos (e.e. Meliden, Dyserth, Gronant) a Phrestatyn yw fy mhrif dref ar gyfer siopa, meddygfa neu feddygaeth arall | |
| Rwy'n ymweld â Phrestatyn o rywle arall yn Sir Ddinbych | |
| Rwy'n ymweld â Phrestatyn o rywle arall (ddim yn Sir Ddinbych) | |
| Rwy'n Gynghorydd Sir yn Sir Ddinbych, yn Aelod o Gyngor Dinas, Tref neu Gymuned, yn Aelod o'r Senedd neu'n Aelod o Senedd y DU | |

## Dyluniad cyffredinol

Yn y rhan hon o’r arolwg, byddwn yn gofyn i chi am y dyluniad cyffredinol a gynigir ar gyfer y cynllun gwelliannau parth cyhoeddus.

| **2. Mae'r llun yn dangos y dyluniad manwl ar gyfer y cynllun<br>Ydych chi’n hoffi’r dyluniad cyffredinol a gynigir ar gyfer y cynllun?** | |
|---|---|
| Ydw | |
| Nac ydw | |
| Dwi ddim yn gwybod | |
| **Arall (dywedwch wrthym yma):** | |
| | |

| **3. Ydych chi’n credu y bydd y Stryd Fawr yn edrych yn well ar ôl y newidiadau?** | |
|---|---|
| Ydw | |
| Nac ydw | |
| Dwi ddim yn gwybod | |
| **Arall (dywedwch wrthym yma):** | |
| | |

## Gwelliannau arfaethedig

Yn yr adran hon, byddwch chi'n gallu ateb cwestiynau am y gwelliannau arfaethedig. Bydd eich atebion yn ein helpu i ddylunio cynllun gwella a fydd, gobeithio, yn gwneud y Stryd Fawr yn fwy apelgar gan annog pobl nad ydynt wedi bod i'r Stryd Fawr o'r blaen o bosibl i ymweld â hi.

## Golwg a Theimlad y Stryd Fawr

| **4. Rydym yn cynnig palmant newydd mewn rhai rhannau o'r Stryd Fawr gyda chyfuniad o balmant bloc Efrog, Gwenithfaen a Choncrit, fel y dangosir ar y llun. Ydych chi'n hoffi'r pafin a'r deunyddiau arfaethedig?** | |
|---|---|
| Ydw | |
| Nac ydw | |
| Dwi ddim yn gwybod | |
| **Arall (dywedwch wrthym yma):** | |
| | |

| **5. Ydych chi eisiau gweld fwy o blanhigion a gwyrddni ar y Stryd Fawr?** | |
|---|---|
| Ydw | |
| Nac ydw | |
| Dwi ddim yn gwybod | |
| **Arall (dywedwch wrthym yma):** | |
| | |

| | |
|---|---|
| **6. Rydym yn cynnig gosod biniau a meinciau yn y lleoliadau a ddangosir ar y llun. Ydych chi'n cytuno:**<br>**a. Bod digon o finiau a meinciau a**<br>**b. Eu bod nhw yn y mannau cywir** | |
| Ydw | |
| Nac ydw | |
| Dwi ddim yn gwybod | |
| **Arall (dywedwch wrthym yma):** | |
| | |

| | |
|---|---|
| **7. Fyddech chi'n defnyddio'r lleoedd newydd i eistedd, i gymdeithasu neu ar gyfer digwyddiadau?** | |
| Bydd | |
| Na fydd | |
| Dwi ddim yn gwybod | |
| **Arall (dywedwch wrthym yma):** | |
| | |

| 8. Rydym yn cynnig ychwanegu nodweddion fel celf gyhoeddus, elfennau porth, polion fflagiau, blwch ffôn a Pulse Hubs at y Stryd Fawr. A ydych chi'n cytuno bod angen y rhain, ac a ydyn nhw yn y mannau cywir? | |
|---|---|
| Ydw | |
| Nac ydw | |
| Dwi ddim yn gwybod | |
| **Arall (dywedwch wrthym yma):** | |
| | |

## Symudiad a Thraffig

Mae’r cynllun yn cynnwys newidiadau i drefniadau traffig (gan gynnwys rhannau unffordd posibl a threialon newid cyfeiriad).

| 9. Ydych chi’n hapus â sut mae’r traffig yn cael ei reoli yn y cynigion? | |
|---|---|
| Ydw | |
| Nac ydw | |
| Dwi ddim yn gwybod | |
| **Arall (dywedwch wrthym yma):** | |
| | |

| **10.** | **Pa effaith mae'r treial traffig dwyffordd ar Ffordd y Bont wedi'i chael yn y dref?** |
|---|---|
| Ydi, mae wedi helpu gyda'r ciwiau traffig i mewn ac allan o'r dref | |
| Naddo, nid yw wedi helpu gyda'r ciwiau traffig i mewn ac allan o'r dref | |
| Dwi ddim yn gwybod | |
| **Arall (dywedwch wrthym yma):** | |
| | |

| **11.** | **Byddwn yn treialu gwrthdroi llif y traffig ar waelod y Stryd Fawr o fis Mehefin. Ydych chi'n credu y bydd hyn yn helpu gyda'r traffig?** |
|---|---|
| Bydd, bydd yn helpu gyda'r ciwiau traffig i mewn ac allan o'r dref | |
| Na fydd, ni fydd yn helpu gyda'r ciwiau traffig i mewn ac allan o'r dref | |
| Dwi ddim yn gwybod | |
| **Arall (dywedwch wrthym yma):** | |
| | |

## Parcio

Mae’r cynllun yn cynnwys ailgyflunio parcio (gan gynnwys baeau cyfochrog, echelon a llwytho). Mae’r parcio wedi’i ddylunio i sicrhau nad yw’r Stryd Fawr yn colli unrhyw ofodau parcio pan fydd y prosiect wedi’i gwblhau.

| **12. Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i symud rhywfaint o'r parcio ar y stryd ar y Stryd Fawr i'r ffyrdd ochr cyfagos i wella lleoliad y Stryd Fawr? Gellir gweld y lleoedd parcio ar y llun hwn.** | |
|---|---|
| Ydw | |
| Nac ydw | |
| Dwi ddim yn gwybod | |
| **Arall (dywedwch wrthym yma):** | |
| | |

Os nad ydych chi’n hoffi’r 17 gofod parcio echelon a gynigir ar gyfer pen y Stryd Fawr, bydd 10 gofod parcio.

| **13. Ydych chi’n derbyn y bydd llai o ofodau parcio os na chaiff y 17 gofod parcio echelon eu gweithredu?** | |
|---|---|
| Ydw | |
| Nac ydw | |
| Dwi ddim yn gwybod | |
| **Arall (dywedwch wrthym yma):** | |
| | |

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Funded by UK Government



## Sylwadau pellach

| 14. | Beth yw'r un peth ydych chi'n ei hoffi fwyaf am y cynnig? |
|---|---|
| | |

| 15. | Pa un peth fyddech chi'n ei newid (os unrhyw beth) am y cynnig? |
|---|---|
| | |

| 16. | A oes unrhyw broblemau gyda'r Stryd Fawr bresennol nad ydych chi'n credu bod y gwelliannau arfaethedig yn mynd i'r afael â nhw? |
|---|---|
| | |

| 17. | Oes gennych chi anabledd, cyflwr iechyd neu unrhyw nodwedd warchodedig arall sy'n effeithio ar sut rydych chi'n cyrraedd y Stryd Fawr? |
|---|---|
| | |

Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU
Funded by
UK Government



**Diolch. Rydych chi wedi cwblhau prif ran yr arolwg.**